**PWYLLGOR NEWID HINSAWDD**
**23 MAI 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 23 Mai 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alasdair Ibbotson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Mared Eastwood, Chrissy Gee, Ian Hodge, Allan Marshall, Carolyn Preece, Dan Rose a Sam Swash

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge (dros Roz Mansell) a Rob Davies (dros Jason Shallcross)

**CYFRANWYR:** Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi a Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Mared Eastwood y Cynghorydd Allan Marshall yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rob Davies.

Gan nad oedd yna enwebiadau eraill, fe'i cymeradwywyd ar ôl cynnal pleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Allan Marshall yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Mared Eastwood ac Allan Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 4. ESTYN ALLAN I'R GYMUNED EHANGACH AR NEWID HINSAWDD

Cyflwynodd y Cynghorydd David Healey fersiwn ddrafft o'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Rhaglen Newid Hinsawdd er mwyn cytuno ar y dull o ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn benodol, pobl ifanc. Croesawodd benodiad diweddar Ben Turpin fel Swyddog Prosiect yn y tîm Newid Hinsawdd.

Rhannodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon gyflwyniad am y Cynllun drafft oedd yn manylu ei bwrpas, Egwyddorion Arweiniol a chydymffurfio a Chydraddoldeb, Cynhwysiant a Safonau'r Gymraeg. Fe nodwyd grwpiau budd-ddeiliaid a lefelau ymgysylltu a byddai gweithgareddau'n cael eu monitro gan y tîm Newid Hinsawdd gyda chynlluniau gweithredu i gyd-fynd a fyddai'n esblygu i ategu llwyddiant y rhaglen.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i awgrymu gweithgareddau eraill o dan y penawdau canlynol, yn ogystal â'r rheini a amlinellwyd yn y cyflwyniad.

<u>Eiriolaeth ac Ymgysylltu</u>

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chrissy Gee at ymarfer drws i ddrws blaenorol a fu'n llwyddiannus yn annog mwy o breswylwyr i ailgylchu.

Dywedodd y Cynghorydd David Healey y dylid dewis ardaloedd targed lle y byddai'n ddymunol i breswylwyr newid ymddygiad. Tra bod gwybodaeth ar gael ar y wefan, roedd yn teimlo y gallai'r neges gael ei darparu mewn modd mwy hygyrch drwy gyfrwng graffig ar steil cartŵn, allai apelio at fwy o bobl. Fe soniodd hefyd am yr ymarfer blaenorol o rannu negeseuon pwysig o fewn gohebiaeth Treth y Cyngor.

Cafodd pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd ei gydnabod gan y Cynghorydd Bernie Attridge a awgrymodd y gallai'r tîm Cyfathrebu fod yn rhan o gefnogi digwyddiadau cymunedol, ymweld ag ysgolion ac ati, er mwyn cyrraedd preswylwyr nad oedd yn defnyddio gwefan y Cyngor.

Awgrymodd y Cynghorydd Mared Eastwood erthyglau wedi'u hysgrifennu'n barod a chlipiau i wrando arnynt y gallai Aelodau eu llwytho i'w tudalennau gwe/newyddlenni er mwyn lledaenu neges gyson. Fe awgrymodd hefyd fwrdd dathlu i hyrwyddo cyflawniadau wrth leihau carbon.

Fe awgrymodd y Cynghorydd Steve Copple y gallai Cynghorau Tref a Chymuned gynorthwyo i ledaenu'r prif negeseuon ac y gallai cefnogwyr Newid Hinsawdd enwebedig ar lefel leol helpu gyda chyhoeddusrwydd mewn ysgolion a digwyddiadau.

Ar ôl siarad am y camau yr oedd wedi'u cymryd i fesur ei gyfradd ailgylchu ei hun, gofynnodd y Cynghorydd Allan Marshall a oedd hi'n bosibl i gyhoeddi data amser-real ar y wefan i ddangos ardaloedd sy'n perfformio'n dda ac yn wael.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Hodge y byddai ymarfer casglu sbwriel yn ei ardal yn helpu i ymgysylltu gyda phobl iau a chodi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol. Roedd yn cefnogi defnyddio posteri i dynnu sylw at fentrau amgylcheddol, ar yr amod eu bod yn cael eu diweddaru er mwyn cynnal diddordeb, ac awgrymodd eu bod yn creu masgot ailgylchu Sir y Fflint mewn steil cartŵn.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Dan Rose bwysigrwydd dyfynnu ystadegau er mwyn atgyfnerthu prif negeseuon, fel y dangoswyd yng nghyflwyniad rheoli mannau agored a rannwyd yn y gweithdy ym mis Ionawr. Dywedodd y gallai cyhoeddi data ailgylchu ardal achosi problemau yn sgil y demograffeg amrywiol

ac awgrymodd y gallai'r Cyngor ymgysylltu gyda phartneriaid presennol megis Bionet ar ddigwyddiadau lleol.

Roedd y Cynghorydd Carolyn Preece yn cytuno gyda'r angen am negeseuon cyson a chryno oedd yn ymdrin â phob mater rheoli hinsawdd. O ran digwyddiadau, fe awgrymodd ymgysylltu gyda grwpiau cyfryngau cymdeithasol megis *Mold Plastic Reduction* a chynrychiolwyr Eco mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Pan ofynnodd y Rheolwr Rhaglen, dywedodd tua hanner y Pwyllgor y byddent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am newid hinsawdd heb gael rhagor o hyfforddiant.

Negeseuon Allweddol

Roedd y Cadeirydd yn teimlo ei bod hi'n bwysig egluro na fyddai camau gweithredu o fewn y cynllun yn cyflawni net sero, ond byddent yn ceisio lleihau allyriadau trwy gynnwys ymdrech ehangach y tîm Newid Hinsawdd ac uwch swyddogion. Dywedodd fod angen derbyn ar bob lefel er mwyn annog newid.

Roedd y Cynghorydd Copple yn cytuno y byddai newid ond digwydd petai pawb yn chwarae eu rhan.

Dywedodd y Cynghorydd Rose y gellir gofyn i unigolion ystyried nid yn unig newidiadau yn eu bywydau eu hunain ond i adnabod cyfleoedd ar draws eu busnesau a sefydliadau allai gael mwy o effaith.

Amcanion

Dywedodd y Cynghorydd Healey y dylai newidiadau allweddol penodol gael eu nodi - yn ogystal ag ailgylchu - gan nodi ei bod yn bosibl y bydd oblygiadau ariannol ynghlwm â rhai ohonynt. Fe awgrymodd hefyd y gallai arwyddair helpu i hyrwyddo newidiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Eastwood y byddai cyhoeddi cyfres o negeseuon sydyn 'wyddoch chi?' yn helpu i godi ymwybyddiaeth o weithredoedd dyddiol er mwyn lliniaru newid hinsawdd. Fe soniodd hefyd y byddai gan rai preswylwyr ddiddordeb clywed beth oedd y Cyngor yn mynd i wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Dywedodd y Cynghorydd Sam Swash y byddai cwis yn helpu i adnabod unrhyw fylchau.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r dull o ymgysylltu gydnabod na fyddai newid yn ymddygiad defnyddwyr yn unig yn datrys yr argyfwng, heb i'r isadeiledd a'r polisïau angenrheidiol fod yn eu lle.

Dywedodd y Cynghorydd Copple y dylai defnyddwyr gael eu hannog i fynegi eu pryderon er mwyn dylanwadu ar weithredoedd cyflenwyr, sefydliadau ac ati.

Roedd y Rheolwr Rhaglen yn annog pob Aelod i gofrestru i gael e-newyddlen Newid Hinsawdd (sy'n cynnwys adran gwybodaeth a chrynodeb o brosiectau/digwyddiadau) a'i hyrwyddo i breswylwyr. Cytunodd i rannu dolen ar ôl y cyfarfod.

I gloi'r eitem, diolchodd y Cynghorydd Healey i Aelodau am eu cyfraniadau i'r drafodaeth.

**5. <u>YNNI THERMOL TRWY DDEFNYDDIO HEN BYLLAU GLO</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Allan Marshall ei adroddiad am ynni thermol yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol am ddefnydd posibl ar gyfer dŵr ffo Nhwnnel Milwr ar gyfer cynllun hydrodrydanol.

Cyfeiriodd yr adroddiad at strategaethau ynni adnewyddadwy, goblygiadau cost pympiau gwres a'r ynni a arbedwyd drwy leihau tymheredd llif y bwyler. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu mynediad posibl at ffynonellau ynni geothermol ar draws Sir y Fflint, ac fe anfonwyd dolenni i ddeunyddiau a gyhoeddwyd er mwyn cefnogi hyn. Rhannwyd gwybodaeth am systemau storio ynni disgyrchiant allai fod yn addas ar gyfer chwareli nad ydynt yn cael eu defnyddio.

I gloi, cynigiodd y Cynghorydd Marshall bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi i nodi'r adroddiad ac ymestyn eu sgôp am yr hyn oedd yn cynrychioli systemau dal ynni adnewyddadwy yn Sir y Fflint.

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Steve Copple a gefnogodd yr awgrym bod y Cyngor yn edrych ar yr argyfwng ynni ymhellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carolyn Preece at gyfarfod diweddar oedd wedi hyrwyddo enghreifftiau o arfer da o fentrau ynni oedd yn cael eu gweithredu gan Gynghorau eraill.

Wrth groesawu'r adroddiad, croesawodd y Cynghorydd David Healey ystyriaeth bellach o ffynonellau ynni geothermol a môr-lynnoedd.

Diolchodd y Cynghorydd Marshall i'r Pwyllgor am ei sylwadau. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhelliad ei dderbyn.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn argymell i'r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi i nodi'r adroddiad uchod ac ymestyn eu sgôp am yr hyn oedd yn cynrychioli systemau dal ynni adnewyddadwy yn Sir y Fflint.

**6. <u>CYNNYDD YMHOLIADAU NEWID HINSAWDD</u>**

Darparodd y Rheolwr Rhaglen ar gyfer Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon ddiweddariad am gynnydd gydag ymholiadau oedd wedi cael eu heffeithio gan broblemau ag adnoddau.

Roedd y sgôp wedi cael ei gymeradwyo'n flaenorol gan y Pwyllgor, yn cynnwys awydd i geisio cael ymatebion gan y cyhoedd. Yn sgil hyn, fe fydd y lansiad yn cael ei addasu i fodloni safonau cynwysoldeb, gan sicrhau bod yna gyfleoedd i bawb gyfrannu. Bydd y wybodaeth a chais am wybodaeth yn cael ei hyrwyddo ar y wefan yn fewnol ac yn allanol. Yn ogystal â'i ddosbarthu i Aelodau Etholedig, byddai manylion yn cael eu cyhoeddi gyda rhwydweithiau proffesiynol ac yn cael eu cynnwys ar e-fwletin Newid Hinsawdd a chyfryngau cymdeithasol ar y cyd â datganiad i'r wasg.

## 7. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Derbyniwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Gofynnodd y Rheolwr Rhaglen bod Aelodau sydd wedi cyflwyno testunau i'w hystyried yn y dyfodol hefyd yn darparu'r pwrpas ar gyfer yr eitemau hynny.

## 8. **AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.05pm)

..............................

**Y Cadeirydd**